Disgrifiad Swydd – Cydlynydd Cenedlaethol Cymraeg Byd Busnes

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm Mentrau Iaith Cymru, ond bydd y gwaith yn llwyr ganolbwyntio ar gydlynu'r prosiect Cymraeg Byd Busnes.

Y Prosiect

Mae Cymraeg Byd Busnes yn brosiect arloesol ac uchelgeisiol sydd yn canolbwyntio ar geisio cael mwy o fusnesau o faint canolig a bychan i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Dechreuwyd y prosiect yn Awst 2017 yn dilyn cais grant llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, hynny yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Mentrau Iaith Cymru gyda'r prosiect.

Mae 10 swyddog yn gweithio'r i'r prosiect ledled Cymru, rhain yn gyflogedig gan y Mentrau Iaith lleol, ond wedi eu hariannu gan Mentrau Iaith Cymru drwy gytundebau lefel gwasanaeth.

Y Rôl:
Dyletswyddau

- Datblygu a Chydlynu strategaethau hybu'r Gymraeg o fewn sectorau busnes amrywiol
- Cydlynu gwaith y tîm (y 10 swyddog Cymraeg Byd Busnes) wrth drefnu ymgyrchoedd a digwyddiadau
- Casglu tystiolaeth ac ymchwil i gefnogi gwaith hybu'r Gymraeg yn y sector breifat
- Cydlynu'r perthynas gyda rhanddeiliaid y prosiect
- Adrodd ar gynnydd targedau i'r arweinydd tîm
- Cydweithio gyda chwmni marchnata a chysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo gwaith y prosiect
- Sicrhau Ansawdd y rhaglen monitro a mesur effaith sydd yn ei lle drwy ddefnyddio 365 Business
- Cydlynu gwaith y swyddogion drwy drefnu a mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol
- Cydlynu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y tîm

Y Person:

Sgiliau / Profiad hanfodol

- Cymhwyster lefel A neu gyfystyr
- Dealltwriaeth o strategaethau hybu ieithyddol, boed hynny drwy gymwysterau, neu brofiad, neu'r ddau
- Profiad o gydlynu prosiect a phrofiad o arwain ac ysgogi eraill yn eu gwaith
- Profiad a/ neu ddealltwriaeth o raglenni cyfrifiadurol megis Office, Excel, Word a google drive
- Yn drefnus ac effeithlon, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol ardderchog.
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol a gweithio'n annibynnol
- Yn meddu ar drwydded yrru lân a chyfredol a defnydd o drafnidiaeth eich hunan.
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig.

Sgiliau / profiad dymunol-

- Gradd neu gymhwyster cyffelyb
- Cymhwyster yn y maes cynllunio ieithyddol
- Profiad o reoli cyllid/ cyllidebau
- Profiad a dealltwriaeth o sut mae rhedeg busnes
- Profiad o lunio adroddiadau
- Profiad o ddefnyddio bas data a chreu adroddiadau, a profiad o ddefnyddio 365 Business
- Profiad neu wybodaeth am reolaethau adnoddau dynol
- Profiad o drefnu a chydlynu cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymgyrchoedd aml asiantaethol
- Profiad a dealltwriaeth o waith y trydydd sector yng Nghymru
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg

Amodau

Bydd yr oriau gwaith yn 37 awr yr wythnos. Llun i Gwener 09:00 - 17:00. Weithiau bydd disgwyl gweithio y tu hwnt i oriau arferol gwaith, rhoddir yr oriau hyn yn ôl yn llawn drwy system Amser Dyledus (Time Off In Lieu- TOIL).

Cytundeb
Cynigir cytundeb hyd at Awst 2019 yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o barhad wedi hynny, bydd hyn yn ddibynnol ar gyfnod prawf llwyddiannus o 6 mis.

Cyflog, teithio a phensiwn
Telir Cyflog o £24,657 - £27,358 y flwyddyn
Telir Costau Teithio o 45c y filltir.
Telir cyfraniad pensiwn

Lleoliad
Yn ddibynnol ar leoliad yr ymgeisydd llwyddiannus bydd modd trafod pa swyddfa Menter Iaith sydd fwyaf addas. Mae'r swydd yn galw am deithio achlysurol ledled Cymru.

Gwyliau
Bydd 25 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau statudol.

Diwedd- Gorffennaf 2018